# Disgrifiad Swydd Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Cyfathrebu** |
| **Band cyflog:** | **Band 2** |
| **Ystod cyflog**:<br>**(pro rata)** | **£33,233 - £42,727**<br>Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd hyd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Arweinydd Cyfryngau Cymdeithasol a Digidol** |
| **Cyfeirnod:** | **MBS-090-26** |
| **Swyddfa:** | **Swyddfa Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Noder: efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. Bydd angen gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn achlysurol. |
| **Natur y penodiad:** | **Parhaol**<br>Noder: os bydd Arweinydd y Grŵp yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben. |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**<br>Efallai y bydd gofyniad i ddeiliad y rôl deithio ar gyfer y gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn (hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran). |
| Er gwybodaeth, gwneir y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Y rôl

| Cyfathrebu |
|---|
| Mae’r swyddi yn y teulu hwn yn cefnogi’r broses o ledaenu gwybodaeth i gynulleidfaoedd mewnol ac allanol, yn unol â'r fframweithiau rheoleiddio y mae Aelodau'n gweithredu o’u mewn. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd. Mae swyddi yn y teulu hwn yn gyfrifol am brosesau creadigol, cysylltiadau cyhoeddus, datganiadau i'r cyfryngau, cyfathrebu a chynhyrchu cyfryngau, cyhoeddiadau printiedig ac electronig, dylunio / rheoli cynnwys gwefan, a’r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r swyddogaeth Gyfathrebu hefyd yn cynnwys cefnogi, cydgysylltu, llunio a rheoli cyfathrebiadau ysgrifenedig, gweledol a digidol. Gall y rolau hyn hefyd gynnwys rheoli a chydgysylltu digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn unol â'r fframweithiau sy'n llywodraethu gweithgarwch yr Aelodau.<br><br>**Mae’r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Cynhyrchu syniadau, ymchwilio, creu, ysgrifennu a chyflwyno amrywiaeth o ddeunyddiau cyfathrebu.<br>• Creu, cefnogi a rheoli ymgyrchoedd ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br>• Darparu cyngor technegol a chyfeiriad i’r Aelodau a staff eraill mewn perthynas â dewis a defnyddio amrywiol gyfryngau cyfathrebu.<br>• Strategaethau cyfathrebu rhagweithiol ac adweithiol.<br>• Datblygu a gweithredu prosiectau gydag asiantaethau amrywiol, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r sector gwirfoddol.<br>• Meithrin a chynnal perthynas â rhanddeiliaid. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd **Swyddog Cyfathrebu Band 2** sy’n gweithio i Aelod o’r Senedd yn gwneud gwaith ymchwil, y wasg a’r cyfryngau yn ôl yr angen, gan sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu lledaenu i bobl drwy’r cyfrwng mwyaf priodol. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Bod yn fedrus gyda'r offer a'r cyfarpar arferol ar gyfer y swydd, gan gynnwys pecynnau meddalwedd safonol, a meddu ar brofiad o ddefnyddio sianeli cyfryngau ar-lein mewn cyd-destun gwaith.<br>• Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig sydd wedi'u datblygu i raddau da.<br>• Dealltwriaeth o'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn<br>• Bydd disgwyl iddynt gynllunio a rheoli'r llwyth gwaith eu hunain o fewn cyfyngiadau arferion a gweithdrefnau sefydledig.<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Dealltwriaeth gref o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu ynddynt. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) yn ogystal â fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol). Y gallu i roi cyngor gwybodus i'r Aelodau a chydweithwyr ar y materion hyn.<br>• Yn meddu ar brofiad o dirwedd y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau ar-lein ac yn defnyddio'r arbenigedd hwn i ddatblygu strategaethau cyfryngau blaengar a rhagweithiol. Profiad o gynghori ar gamau gweithredu gan y cyfryngau ar lefel uwch a chefnogi timau i ddatblygu ymgyrchoedd.<br>• Yn gallu dylanwadu ar agenda'r cyfryngau digidol drwy gynllunio ymlaen llaw yn rhagweithiol ac yn datblygu strategaethau i ddiogelu a gwella enw da. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o dechnegau ymdrin â'r cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, gan gynnwys llunio cynllun cyfathrebu, yn ofyniad allweddol.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>• Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. |
| **Meini prawf dymunol** |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a |

| |
|---|
| diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Yn arddel amcanion a gwerthoedd Plaid y Ceidwadwyr Cymreig.<br>• Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith. |
| **Cymwysterau** |
| • Y gallu i ddangos dealltwriaeth neu brofiad o ystod o weithdrefnau gwaith yn seiliedig ar brofiad gwaith perthnasol a/neu gymhwyster galwedigaethol e.e. NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.<br>• Tystiolaeth o sgiliau rhifedd a llythrennedd e.e. TGAU Saesneg / Cymraeg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol) Gradd C neu uwch, neu brofiad priodol arall. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol: Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

# Prif ddyletswyddau

| Cyfathrebu a chysylltiadau â'r cyfryngau |
|---|
| • Gweithredu fel swyddog cyswllt i'r cyfryngau, gan ymgysylltu â newyddiadurwyr a darlledwyr.<br>• Drafftio postiadau cyfryngau cymdeithasol, byrddau stori, sgriptiau fideo, erthyglau ar-lein, datganiadau i'r wasg a briffiau i'r cyfryngau.<br>• Helpu i reoli ymddangosiadau yn y cyfryngau a pharatoi ar gyfer cyfweliadau, gan gynnwys drafftio negeseuon allweddol. |
| **Rheoli'r cyfryngau digidol a'r cyfryngau cymdeithasol** |
| • Rheoli'r naws ar gyfer cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Creu a chyhoeddi cynnwys amlgyfrwng o ansawdd uchel (gan gynnwys graffeg, fideos, infograffeg a chyfryngau digidol eraill).<br>• Monitro data dadansoddeg a data ymgysylltu i fireinio strategaeth cynnwys.<br>• Nodi cynulleidfaoedd targed ar gyfer cynnwys i ysgogi ymgysylltiad a hyrwyddo gwaith Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd. |
| **Ymgysylltu â'r cyhoedd a rheoli rhanddeiliaid** |
| • Rheoli perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol.<br>• Goruchwylio gwaith cynhyrchu cylchlythyrau, cyfathrebiadau e-bost a chynnwys gwefannau.<br>• Trefnu a hyrwyddo ymddangosiadau cyhoeddus, digwyddiadau ac ymweliadau ag etholaethau ar gyfer Arweinydd a Llefarwyr y Ceidwadwyr Cymreig.<br>• Cynghori Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreigynghylch negeseuon cyhoeddus a chyfleoedd ymgysylltu cymunedol.<br>• Sicrhau cysondeb mewn negeseuon ar draws pob platfform. |
| **Goruchwyliaeth** |
| • Goruchwylio gwaith staff neu interniaid Band 3 i sicrhau gwaith o ansawdd uchel.<br>• Goruchwylio i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfathrebu yn cydymffurfio â rheolau'r Senedd. |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |
| **Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:**<br>• Cefnogi a chynghori Aelodau o Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch |

gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Iechyd, diogelwch a llesiant:**

- Cefnogi a chynghori Aelodau o Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Diogelu:**

- Cefnogi a chynghori Aelodau o Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y broses o gydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

**Materion eraill**

- Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).
- Cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl yr angen i gefnogi Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig.